

CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL - DYDD GWENER, 25 MEDI 2026

**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL GYNHALIWDYD HYBRID YN YSTAFELLOEDD
PWYLLGOR 1/2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB YMLAEN DYDD GWENER, 25 MEDI 2026
YN 10:00**

Presennol

Y Cyngorydd A Ulberini-Williams – Cadeirydd

F D Bletsoe

AJ Williams

MJ Williams

Presennol o bell

JPD Blundell

N Clarke

HJ David

M L Hughes

J Llewellyn-Hopkins

RL Penhale-Thomas

T Thomas

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

H Griffiths, S J Griffiths a/ac E D Winstanley

Y Cyngorydd Jane Gebbie - Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Y Cyngorydd Colin Davies – Aelod y Cabinet dros Adfywio a Thai ac Y Cyngorydd Gary Haines - Aelod y Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd)

Janine Nightingale - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau

Gwahoddedigion:

Y Cyngorydd John Spanswick

Arweinydd

Y Cyngorydd Hywel Williams

Aelod y Cabinet dros Gyllid a Thrawsnewid

Y Cyngorydd Martyn Jones

Aelod y Cabinet dros Addysg a Phobl Ifanc

Y Cyngorydd Eugene Caparros

Aelod y Cabinet dros Gymunedau a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd)

Y Cyngorydd Melanie Evans

Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol

Jake Morgan

Prif Weithredwr

Carys Lord

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid

Lindsay Harvey

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Claire Marchant

Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Kelly Watson

Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoliadol ac Etholiadol

Stacey Forde

Pennaeth Perfformiad, Gweithlu a Newid Diwylliannol

Daniel Taylor

Pennaeth Trawsnewid a Digidol

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Zak Shell
Kate Pask
Anya Richards

Pennaeth Gweithrediadau
Rheolwr Polisi a Pherfformiad Corfforaethol
Rheolwr Grŵp – Cyfathrebu, Materion Cyhoeddus a Pholisi

Swyddogion:

Rachel Keepins
Jessica McLellan

Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Craffu

Datganiadau o Fuddiannau
Dim.

212. Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2026/27

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a'r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol: Argymhellion: 1. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr angen i resymoli nifer yr Ymrwymïadau a'r Dangosyddion Perfformiad (PIs) ond argymhellodd ystyried cychwyn mesur perfformiad yn erbyn: a. cyflwr llwybrau cerdded yn ychwanegol at ffyrdd cerbydau b. digwyddiadau tywydd eithafol eraill megis tonnau gwres yn ogystal â llifogydd c. diwrnodau salwch; d. cadw staff a sefydlogrwydd y gweithlu; e. partneriaid megis Gofal a Thrwsio, sydd hefyd yn cynorthwyo pobl i gynyddu eu hawliau am fudd-daliadau; a f. nifer y plant mewn llety dros dro. 2. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch absenoldeb Dangosyddion Perfformiad o dan rai o'r Ymrwymïadau ac argymhellodd lle roedd hyn yn wir y dylid ystyried cynnwys rhyw fath o fesurydd perfformiad, e.e. dyddiad, llinell derfyn ac yn y blaen.
----------------------	--

	3. <u>DCO23.05</u> Holodd y Pwyllgor pam roedd y targed o 5% yn 2026-27 ar gyfer y Dangosydd Perfformiad '<i>Lleihau Allyriadau</i>' yr un fath â'r targed o 5% ar gyfer y flwyddyn flaenorol ac fe'u hysbyswyd mai'r targed cyfredol oedd cyflawni gwelliant pellach o 5% yn ystod y flwyddyn, ac argymhellwyd bod hyn yn cael ei wneud yn eglur ar y Dangosfwrdd. 4. <u>DCO23.04</u> Hysbyswyd y Pwyllgor bod y targed ar gyfer nifer y busnesau newydd a gefnogir yn dibynnu i raddau helaeth ar lefel y cyllid sydd ar gael, ac argymhellwyd ystyried sut y mae'r amrywiaeth o ffyrdd eraill y mae'r Cyngor yn eu defnyddio, sydd heb fod yn ymwneud â chyllid, i gefnogi busnesau newydd yn cael eu mesur. 5. <u>DEFS 2</u> Argymhellodd y Pwyllgor, gyda golwg ar y ganran o ddisgyblion sy'n ennill 5+ o raddau A-A* yn arholiadau TGAU a graddau A-A* yn Lefel A, fod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fwy amserol ag Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid unwaith eu bod wedi eu dilysu. 6. <u>DEFS 2</u> Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ystyried cofnodi, yn ogystal â TGAU a Lefel A, pob cymhwyster galwedigaethol arall o fewn y Dangosyddion Perfformiad, 7. <u>WBO3.4.1</u> Argymhellodd y Pwyllgor gynnwys y cynnig i ddarparu egin-ysgol Gymraeg newydd ym Mhorthcawl ymhlith Prosiectau Moderneiddio Ysgolion Band B. 8. <u>EDU008a & b</u> Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynghylch y ffordd yr oedd y targedau ar gyfer nifer y gwaharddiadau parhaol yn cael eu mynegi, ac argymhellodd gynnwys y nifer gwirioneddol yn y Dangosfwrdd Perfformiad. 9. Bu'r Pwyllgor yn trafod y dylai perfformiad cadarnhaol gael ei adlewyrchu yn y Dangosfwrdd Perfformiad hefyd, a bod sylwadau gan Estyn yn cael eu cofnodi yn erbyn rhai Ymrwymïadau a Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Addysg, ac argymhellodd ystyried cynnwys sylwadau gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn erbyn y mesurau perfformiad ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, lle bo hynny'n briodol.
--	---

10. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch targedau a osodwyd oedd yn dangos dirywiad ers y perfformiad gwirioneddol a gyflawnwyd yn 2025-26, ac **argymhellodd** gynnal adolygiad i sicrhau bod yr holl dargedau yn uchelgeisiol ac yn realistig, er enghraifft, canran y bobl a dderbyniodd gymorth drwy'r Gwasanaeth Cymorth a Chymorth Ariannol, lle cyflawnwyd 96% yn 2025-26 ond lle gosodwyd targed o 80% ar gyfer 2026-27 a holodd oni ddylid codi'r ffigwr hwnnw, ac os na, y dylai'r rhesymeg adlewyrchu'r rhesymau dros hynny.

Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:

11. SCO23.06 and 07

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurder yn y naratif ynghylch y gydberthynas rhwng y dangosyddion yn ymwneud â baneri glas, parciau â baneri gwyrdd, mannau gwyrdd a'r Cynllun Bioamrywiaeth.

12. PAM/020, 021 & 022

O ran y ffyrdd oedd wedi eu dosbarthu yn A, B ac C, **gofynnodd** y Pwyllgor am y canlynol:

- a. Y cilometrau o ffordd ym mhob categori;
- b. Sut mae cyflyrau'r categori o ffyrdd yn cymharu gydag Awdurdodau Lleol eraill Cymru; ac
- c. Y meini prawf oedd yn cael eu cymhwyso i gyflwr y ffyrdd.

13. Canran y strydoedd sy'n lân

Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o'r meini prawf oedd yn cael eu defnyddio i ddosbarthu stryd yn lân.

14. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddadansoddiad manwl o'r buddsoddiad o £4.6 miliwn mewn seilwaith priffyrdd yn 2026/27 gan gynnwys cyllid cylchol, refeniw a chyfalaf, a dadansoddiad manwl o ba gyllid sy'n allanol ac yn fewnol.

15. **Gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch faint o arian sy'n cael ei ddyrannu i Fenter Gwaith Pen-y-bont ar Ogwr a faint o staff fydd yn cael eu cyflogi ynddi.

16. **Gofynnodd** y Pwyllgor am wybodaeth yn nodi'r buddsoddiadau penodol y mae'r Cyngor wedi eu gwneud mewn gwaith i atal llifogydd.

17. WBO 3: Cynorthwyo pobl i ddysgu'r sgiliau y mae arnynt eu hangen ar gyfer gwaith

Cododd y Pwyllgor gwestiwn ynghylch pam y gosodwyd y targed yn llawer is na pherfformiad

	gwirioneddol 2025-26, a gofynasant am nodyn briffio ynghylch y berthynas rhwng gosod y targed a lefel y cyllid. 18. Gofynnodd y Pwyllgor am i adroddiad ynghylch yr heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu wrth gyflawni prosiectau cyfalaf mawr, gan gynnwys y rhaglen moderneiddio ysgolion, gael ei ychwanegu at Flaenraglen Waith y Pwyllgor.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	25 Medi 2025

213. Gweledigaeth Drawsnewid arfaethedig ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2040

Y Penderfyniad Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol: Argymhellion: 19. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai pob adroddiad, gan gynnwys adroddiadau ar y Fframwaith Perfformiad ac ar fonitro'r gyllideb, nodi'n glir yn y naratif cysylltiedig pa wasanaethau sydd wedi eu cynnwys mewn Prosiectau Trawsnewid er mwyn sicrhau ei bod yn glir i bob Aelod a yw Gwasanaeth yn mynd drwy waith Trawsnewid ac a oes unrhyw effaith gysylltiedig, ochr yn ochr â monitro perfformiad a/neu ragolwg cyllideb refeniw y Gwasanaeth hwnnw. 20. Argymhellodd y Pwyllgor adolygu trefniadau llywodraethu a strwythur y Bwrdd Trawsnewid, ac y dylid adrodd ar y cynnydd o ran cyflawni'r Rhaglen Drawsnewid i'r Pwyllgor fesul chwarter neu hanner blwyddyn. 21. Argymhellodd y Pwyllgor ystyried sut i sicrhau bod Gweledigaeth 2040 yn parhau yn gadarn yn wyneb amrywiaeth o ffactorau allanol, a bod digon o gamau cerrig milltir mesuradwy yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y gwaith o gyflawni'r Weledigaeth yn parhau i fod yn ganolbwynt.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	25 Medi 2025

214. Materion Brys

Y Penderfyniad Wnaed	Dim.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	25 Medi 2026

Er mwyn gwyllo trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch y [ddolen](#) hon, os gwelwch yn dda.

Terfynwyd y cyfarfod yn 14:57.